# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## (O BELL TRWY TEAMS)

**Aelodau'n bresennol:** **Dydd Mawrth, 16 Mehefin 2020**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod S.Paddison** |
| **Is-gadeirydd:** | **Aelod S.Pursey** |
| **Cynghorydd**: | C.J.Jones, D.Keogh, R.Mizen, S.Bamsey, R.Davies, S.K.Hunt, A.N.Woolcock, C.Williams a/ac S.Renkes |
| **Aelod CDU/CDLI:** | Aelod A.Wingrave |
| **Swyddogion yn bresennol:** | C.Morris, S.Ball, M.Shaw, R.MacGregor, Jenkins, A.Manchipp, C.Plowman a/ac T.Davies |

---

1. **GWNEUD CAIS AM YMWELIAD(AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD**

**PENDERFYNWYD:** Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau safle ar y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw.

2. **TAFLEN DDIWYGIO**

Sylwer: Dosbarthwyd taflen ddiwygio mewn perthynas â chais rhif: P2019/5574 cyn y cyfarfod, a rhoddodd y Cadeirydd amser digonol i'r aelodau ei darllen, mewn perthynas ag eitemau'r cais ar yr agenda a gyhoeddwyd, rhoddodd y Cadeirydd ganiatâd i'w dosbarthu/hystyried yn ystod y cyfarfod heddiw, oherwydd y rhesymau a'r sefyllfa benodol lle nad oedd am ohirio unrhyw geisiadau ac i sicrhau y gall aelodau ystyried yr holl wybodaeth berthnasol ychwanegol cyn gwneud unrhyw benderfyniad yn ystod y cyfarfod.

3. **CAIS RHIF. P2019/5574 - PENTREF TREFOL COED DARCY, LLANDARCY CASTELL-NEDD**

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (Cais dan Adran 106A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) i addasu cytundeb Adran 106 gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddarparu isadeiledd strategol gan gynnwys ffordd fynediad ddeheuol a ffordd gyswllt strategol, ysgolion a chyfleusterau cymunedol, tai fforddiadwy a gwelliannau i gyffordd yr M4 ym Mhentref Trefol Coed Darcy, Llandarcy, Castell-nedd), fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd asiant yr ymgeisydd yn bresennol i roi ei ddatganiadau yn ystod y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i'r egwyddorion yn y cytundeb Adran 106 fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, a rhoi pwerau dirprwyedig i Bennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd am unrhyw fân ddiwygiadau i'r telerau hyn yn destun cytundeb yr ymgyngoreion perthnasol, ar yr amod nad yw'r diwygiadau'n tanseilio'r egwyddorion/nodau a ddisgrifir o fewn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**CADEIRYDD**